

Rhif: WAG10-11896



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Dogfen Ymgynghori

Adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **28 Mawrth 2011**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **27 Mehefin 2011**

Adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru

Trosolwg

Ym Mehefin 2010 cyhoeddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes y bwriad i sefydlu adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethol sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

Roedd yr adolygiad o drefniadau llywodraethol sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn ystyried a oedd y trefniadau presennol, fel y maent wedi'u nodi yn y Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006 (2006 Rhif 13), yn dal yn berthnasol ar gyfer y sialensiau a' disgwyliadau sy'n wynebu'r sector addysg bellach (AB) a'r economi ehangach er mwyn cwrdd ag anghenion cyflogwyr, unigolion a chymunedau yn y dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn darparu manylion o'r adroddiad a gwblhawyd gan yr adolygiad a'r bwriad yw casglu eich barn ynghylch a yw'r argymhellion yn briodol ac a ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru eu derbyn.

Sut i ymateb

Mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael i'w llenwi yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Dylid postio/e-bostio ffurflenni ymateb at Ysgrifenyddiaeth Adolygiad Llywodraethol AB yn y cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **27 Mehefin 2011**.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Manylion cysylltu

Am ragor o wybodaeth:
Ysgrifenyddiaeth Adolygiad Llywodraethol AB
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ffynnon Las
Heol Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5EZ

e-bost: FEGovernanceReview@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2092 6078

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth y Cynulliad sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth y Cynulliad yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair	2
Cyflwyniad	4
Cefndir	5
Trosolwg o'r cynigion	6
Atodiad A: Adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru – argymhellion	9

Rhagair

Ym Mehefin y llynedd cyhoeddais adolygiad annibynnol o drefniadau Llywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach (AB) yng Nghymru. Byddai sefydlu panel adolygu annibynnol yn ymateb i gyhoeddiad y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau' yn Ebrill 2009 o fwriad Llywodraeth y Cynulliad "...i ystyried cynnig deddfwriaeth sy'n diwygio trefniadau llywodraethu sefydliadau addysg bellach, fel rhan o'n penderfyniad cyffredinol i weddnewid tirwedd addysg ôl-16 yng Nghymru, mewn sefydliadau addysg bellach ac ysgolion."

Rwy'n benderfynol o barhau i ddatblygu system addysg bellach ymatebol sy'n gyrru lefelau sgiliau yn uwch, cyfrannu at adfywiad economaidd a mynd i'r afael â thlodi ac anfantais gymdeithasol. Sefydlwyd y panel annibynnol gyda chylch gorchwyl i ystyried a yw trefniadau llywodraethu presennol yn dal yn briodol ar gyfer tirwedd bresennol mes dysgu ôl-16 a'r newidiadau cyflym sy'n digwydd yn y maes. Mae'n hanfodol bod cyrff llywodraethu yn adlewyrchu ystod y gwaith y mae sefydliadau AB yn ei gyflawni erbyn hyn.

Mae angen i ni ofyn i'n hunain, a yw'r model llywodraethu presennol yn adlewyrchu

- amrywiaeth y Sector AB wrth gwrdd â'r sialensiau economaidd-gymdeithasol eang cyfredol, a'r rhai y mae dysgwyr, cymunedau, diwydiannau a'r sector ei hun bellach yn ei wynebu?
- atebolrwydd gwirioneddol i gymunedau lleol o gofio'r cynnydd mewn gweithgaredd 14-19?
- y cyfraniad sylweddol a wnaed gan y sector AB i uchelgais Llywodraeth y Cynulliad i wella cyfiawnder cymdeithasol a chronfa sgiliau gweithlu Cymru?
- potensial y sector i wneud hyd yn oed mwy dros ddinasyddion?

Penodwyd Mr Rob Humphreys, Cyfarwyddwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru, i gadeirio'r panel oedd yn cynnwys wyth o unigolion gydag arbenigedd eang. Yn ogystal â'r uchod, rhoddwyd y dasg i'r adolygiad adnabod arfer da ac arloesol mewn sectorau eraill, ac mewn mentrau cymdeithasol yn arbennig, er mwyn gweld pa wersi y gellir eu dysgu wrth gwrdd ag anghenion rhanddeiliaid mewn addysg ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Yn benodol, gofynnais i'r panel ystyried sut y gallai trefniadau llywodraethu mentrau cymdeithasol llwyddiannus yma yng Nghymru a thu hwnt alluogi'r Sector AB i barhau i gwrdd ag anghenion eu rhanddeiliaid. Gallai model sy'n tynnu ar arfer da yn y sector menter gymdeithasol gynnig trefniant amgen Cymreig i'r model corffori presennol.

Ar 22 Mawrth 2011 cyhoeddwyd yr adroddiad a'r argymhellion oedd yn deillio o'r adolygiad annibynnol ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn <http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/fegovreview/?skip=1&lang=cy>. Mae'r panel wedi darparu adroddiad diddorol, treiddgar a heriol sy'n gosod allan gweledigaeth newydd ar gyfer llywodraethu AB yng Nghymru.

Cyn i'r argymhellion hyn gael eu derbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, credaf ei bod yn bwysig i'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y cynigion gael cyfle i'w hystyried a rhoi sylwadau arnynt. Heddiw rwyf yn cyhoeddi papur ymgynghori gan

wahodd sylwadau gan **bob** cwsmer, defnyddiwr ac unigolyn sydd â diddordeb yn y sector AB a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn cymryd y cyfle i ystyried y papur hwn a chynnig eich sylwadau ar y materion sy'n cael eu codi ganddo. Ategir y papur ymgynghori gan weithdai rhanddeiliaid a gaiff eu cynnal ar 9, 10 ac 11 Mai 2011, lle bydd Cadeirydd yr adolygiad, Mr Humphreys, yn cymryd rhan ynghyd ag aelodau'r panel.

Rhoddir manylion y digwyddiadau ymgynghori hyn ar wefan yr ymgynghoriad yn <http://wales.gov.uk/consultations/?skip=1&lang=cy> ac eisoes fe gyhoeddwyd nodyn ar gyfer dyddiaduron mewn cysylltiad â hyn.

Nodir nifer o gwestiynau ymgynghori penodol yn y papur. Os ydych am gynnig eich sylwadau ar y rhain neu unrhyw fater a godwyd yn y papur ymgynghori gallwch ysgrifennu at:

Ysgrifenyddiaeth Adolygiad Llywodraethol AB
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ffynnon Las
Heol Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5EZ

neu

ebost: FEGovernanceReview@Wales.gsi.gov.uk

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Mawrth 2011

Cyflwyniad

Ym Mehefin 2010, cyhoeddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ei fod yn sefydlu adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethol Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn gwahodd sylwadau ar argymhellion yr adroddiad.

Cefndir

1. Erbyn hyn mae yno 20 o sefydliadau AB yng Nghymru, yn cyflenwi tua chwe deg y cant o'r dysgu ôl-16 a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn 2009/10 derbyniodd sefydliadau AB yng Nghymru dros £343 miliwn o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflenwi dysgu, sy'n cyfateb bron i wyth deg y cant o gyfanswm eu hincwm.
2. Mae'r sefydliadau hyn yn gwneud cyfraniad hanfodol i nifer o strategaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys Cymru'n Un, Trawsnewid, 14-19 Llwybrau Dysgu, Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru ac 'Er Mwyn Ein Dyfodol'. Cyflawnir y cyfraniad trwy gyflenwi dysgu academiaidd a galwedigaethol, dysgu cymunedol a sicrhau dilyniant i addysg uwch.
3. Fel darparwr allweddol o ddysgu a sgiliau, gydag enw cyffredinol am ddarpariaeth o ansawdd da gyda gwelliannau cyson o flwyddyn i flwyddyn, mae sefydliadau AB wedi ennill swyddogaeth hanfodol yn yr economi Cymreig. Mewn ymateb i Trawsnewid, mae sefydliadau mwy o ran eu maint a mwy strategol wedi dod i'r amlwg, ac maent yn parhau i ddod i'r amlwg, dros ardaloedd daearyddol ehangach gan ddarparu ystod fwy amrywiol o ddysgu a gwasanaethau nag y mae sefydliadau AB wedi'i wneud ers eu hymgorffori.
4. Yn haf 2010, cyhoeddodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu yn y sector addysg bellach yng Nghymru. Wrth sefydlu cylch gorchwyl yr adolygiad, pwysleisiodd y rôl allweddol y mae sefydliadau AB yn ei chwarae yn yr economi cenedlaethol ac wrth gyflenwi polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yng ngoleuni hyn, mae'n hanfodol sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol yn eu lle er mwyn sicrhau'r lefel cywir o graffu, herio ac atebolrwydd ar gyfer sefydliadau sydd er budd y cyhoedd ac sy'n derbyn buddsoddiad ariannol sylweddol gan y sector cyhoeddus.
5. Sefydlwyd y Panel Adolygu yng Ngorffennaf 2010 dan gadeiryddiaeth Rob Humphreys, Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru. Cyflwynodd ei adroddiad i'r Gweinidog yn Chwefror 2011. Amlinellir elfennau allweddol o'r adroddiad isod; a nodir yr argymhellion yn llawn yn **Atodiad A**.

Trosolwg o'r cynigion

6. Canolir cynigion y Panel Adolygu ar system lywodraethu newydd ac unigryw ar gyfer sefydliadau AB yng Nghymru, sy'n cynnwys dau llyn:
 - **Bwrdd** newydd 'meinach', sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol a Gweithredol, wedi'u penodi ar sail sgiliau ac arbenigedd, yn hytrach na chategorïau. Y Bwrdd yma fyddai'r corff llywodraethu gan etifeddu'r holl gyfrifoldebau presennol. Byddai Cyfarwyddwyr yn cael eu penodi ar sail y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol ar gyfer llywodraethu, yn hytrach na 'chategorïau' llywodraethu. Byddai'n rhaid i bob penodiad i'r Bwrdd fod yn unol ag egwyddorion Nolan.
 - Bydd **Corff Aelodau** newydd yn ategol i'r Bwrdd, er mwyn sicrhau bod y sefydliad AB yn ymgysylltu'n llawn â'i gymuned yn cynnwys dysgwyr, cwsmeriaid, cyflogwyr, partneriaid strategol eraill a staff. Bydd yno ymrwymïadau a chyfrifoldebau ynghlwm ag aelodaeth. Byddai'r Corff Aelodau yn craffu ar y Bwrdd ac yn gweithredu fel bwrdd seinio i sicrhau bod cyfeiriad a strategaeth y sefydliad AB yn hyrwyddo anghenion gorau dysgwyr, yr economi a'r gymuned leol. Byddai'n ofynnol i'r Bwrdd fod yn agored a thryloyw, ymgysylltu mewn deialog â'r Corff Aelodau a sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â hwynt. Ni fyddai gan Aelodau unrhyw rôl mewn cymeradwyo polisi, sy'n sicrhau eu gallu i herio a chraffu ar berfformiad a chyflawniadau'r Bwrdd yn llawn. Bwrdd. Ni fyddai gan y Corff Aelodau gyfrifoldeb am reolaeth gyffredinol neu asedau'r sefydliad AB. Cyfrifoldeb y Bwrdd Cyfarwyddwyr fyddai hynny.
7. Mae'r cynigion hyn ar gyfer y Bwrdd a'r Corff Aelodau wedi'u seilio o gwmpas pedair 'colofn' allweddol llywodraethu a amlinellir isod.

Eglurder a phwrpas addysg bellach

8. Rhoddodd yr adroddiad ystyriaeth i bwrpas addysg bellach mewn cymdeithas fodern, ac o fewn Cymru yn benodol. Roedd yn cydnabod bod addysg bellach yn hanfodol mewn unrhyw gymdeithas fodern, ac yn ganolog i sicrhau ffyniant economaidd a mwy o gyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Roedd y grŵp yn bendant o'r farn bod sefydliadau AB yn sefydliadau annibynnol, ond mae'r buddsoddiad cyhoeddus a dderbynnir ganddynt yn golygu bod addysg bellach er budd y cyhoedd.
9. Nododd adroddiad Humphreys deg o bwrpasau addysg bellach fel y gwelwyd hwynt gan y panel, ac mae'r rhai yn cydnabod bod sefydliadau AB yn sefydliadau darparu cynyddol gymhleth a hynny mewn amgylchedd lle mae'r pwyslais ar rwydweithio a gwaith amlasiantaeth yn cynyddu, gydag ystod ehangach o ddysgwyr a defnyddwyr gwasanaeth.
10. Ar sail hyn, nododd yr adolygiad dri dimensiwn y bernir eu bod yn hanfodol i lywodraethu da, ac sy'n darparu'r fframwaith trefniadol ar gyfer yr argymhellion.

Craffu ac atebolrwydd

11. Cynigir y dylai'r Bwrdd fod yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad, a chraffu ar ei reolwyr a'u herio. Byddai'n cynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol a Gweithredol (yn cynnwys y Prifathro) ar gymhareb nad yw'n llai na 2 i 1. Mae'r adroddiad yn rhoi cynigion gerbron ynghylch nifer y Cyfarwyddwyr, hyd eu penodiad, a pha mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd.
12. Dylai pob Bwrdd ddatblygu mesurau i asesu effaith ac effeithiolrwydd y sefydliad AB, a dylid adolygu'r mesurau hynny yn flynyddol. Dylai asesiad y Bwrdd o'i berfformiad gynnwys ymgysylltu â'r Corff Aelodau a chael eu herio ganddynt. Dylai fod yn ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i bob Bwrdd gyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos sut y mae wedi perfformio yn erbyn y mesurau. Bydd angen rhannu'r adroddiad hwn gyda'r Corff Aelodau.
13. Bydd yn ofynnol hefyd i Fyrddau ystyried swyddogaethau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol y Sector AB. Bydd y ddyletswydd yma i ystyried yn cynnwys ystyried swyddogaethau a swyddogaethau posib darparwyr addysgol eraill yn gyfochrog â'u rhai ei hunain.
14. Er mwyn adlewyrchu ymrwymiad a chyfraniad Cyfarwyddwyr Anweithredol mae'r panel yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth i alluogi sefydliadau i roi cydnabyddiaeth ariannol i'r rhain os dymunant.

Perchenogaeth

15. Yr hyn a olygir yma yw perchenogaeth o AB yn yr ystyr ideolegol sy'n gysylltiedig ag AB er budd y cyhoedd, yn hytrach na'r ystyr cyfreithiol o berchnogi asedau neu reoli'r sefydliad AB.
16. Dylai maint ac aelodaeth pob Corff Aelodau fod yn ddigon hyblyg i gwrdd ag anghenion sefydliadau unigol. Rhagwelir, fodd bynnag, y bydd hyn ym mhob achos yn cynnwys unigolion o'r sectorau addysg, busnes a'r trydydd sector, yn ogystal â dysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff y sefydliad. Bydd yn bwysig iawn bod gan aelodau lais cydradd ar y corff, ac ni fyddent wedi'u mandadu i gynrychioli neu siarad ar ran grwpiau neu unigolion eraill.
17. Bydd yno ymrwymadau a chyfrifoldebau ynghlwm ag aelodaeth a nodir swyddogaeth arfaethedig y Bwrdd mewn mwy o fanylder yn adroddiad Humphreys. Bydd deialog agored a thryloyw rhwng y bwrdd a'r corff aelodau yn hanfodol er mwyn i'r model weithio'n dda; byddai'r corff aelodau yn darparu adborth a gwybodaeth am faterion a chyfleoedd perthnasol i'r bwrdd, ond byddai hefyd yn ei herio a'i ddal yn atebol am ei berfformiad.
18. Fel nodwyd eisoes swyddogaeth y Corff Aelodau yw cyfarwyddo yn hytrach na chymeradwyo polisi, ond un o gyfrifoldebau'r Corff fydd cadarnhau penodiad y Cyfarwyddwyr Anweithredol a chymeradwyo eu hailbenodi pan ddaw eu tymor yn y swydd i ben. Trwy gyfrwng y mecanwaith yma rhoddir 'llais' i'r gymuned y mae'r sefydliadau yn ei gwasanaethu er mwyn gallu mynegi barn ar berfformiad AB wrth gwrdd â'r anghenion a nodwyd ac ymateb i strategaethau cenedlaethol.

Capasiti ac effeithiolrwydd

19. Er mwyn cryfhau ymhellach ymatebolrwydd y Sector AB i gyflogwyr, ac i sicrhau bod anghenion ystod eang o sefydliadau yn cynnwys Busnesau Bach a Chanolig yn cael eu hystyried, cynigir sefydlu arsyllfeydd rhanbarthol. Ni fwriedir y rhain i ddisodli arfer da a systemau sydd eisoes ar waith, ond yn hytrach i ddod â gwybodaeth am y farchnad lafur ynghyd mewn ffordd fwy cydlynol.
20. Rhagwelir y bydd sefydliadau AB yn gweithio gyda'i gilydd mewn modd cydweithredol er mwyn ymateb i anghenion economaidd, adeiladu ar y cynnydd da a wnaed eisoes wrth gyflenwi agenda Trawsnewid Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r panel yn argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad hefyd gefnogi sefydliadau AB wrth ddatblygu partneriaethau arloesol gyda chyrrff eraill er mwyn darparu gwasanaethau ar y cyd.
21. Er mwyn sicrhau bod y model llywodraethol newydd yn cael ei gyflenwi'n gyson ac effeithiol ar draws Cymru, cynigir y dylid datblygu cod llywodraethu a rhaglen hyfforddi i lywodraethwyr i bawb sy'n gweithio yn y system llywodraethu AB, ar fyrddau neu gyrff aelodaeth.

Argymhellion

Atebolrwydd a chraffu

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- A 1 Ddiwygio'r fframwaith rheoleiddiol y mae corfforaeth addysg bellach yn gweithio o'i fewn, sef y Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) 2006, er mwyn gallu creu system llywodraethu newydd sy'n cynnwys Bwrdd a Chorff Aelodau.
- A 2 Ystyried galluogi Byrddau i gyflwyno taliadau i'r Cadeirydd ac i aelodau eraill sy'n Gyfarwyddwyr Anweithredol os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ar yr amod eu bod yn trafod hynny gyda'r Comisiwn elusennau a chyrrff priodol. Os bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu rhoi ar waith, dylai Byrddau sy'n dymuno talu i bobl allu dangos bod ganddynt achosion clir, cadarn, seiliedig ar dystiolaeth dros wneud hynny.
- A 3 Dileu'r categorïau aelodaeth o'r Offerynnau a'r Erthyglau, gan ganiatáu i Gyfarwyddwyr y Bwrdd gael eu dewis ar sail y sgiliau, y rhinweddau a'r profiad sy'n fuddiol i'r sefydliad AB.
- A 4 Ei gwneud yn ddyletswydd ar Fyrddau i ystyried swyddogaethau cenedlaethol a rhanbarthol y sector AB ac anghenion y rheini y mae'r sector yn eu gwasanaethu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Dylai'r ddyletswydd hon gynnwys gorfod ystyried rolau a darpar rolau darparwyr addysg eraill ochr yn ochr â'u rolau hwy eu hunain wrth ddiwallu'r anghenion hynny.
- A 5 Sefydlu dangosyddion perfformiad blynyddol a thymor hwy clir i'r Byrddau adrodd yn eu cylch a'u cyhoeddi, gan gynnwys:
 - o canlyniadau dysgwyr
 - o iechyd ariannol
 - o ymgysylltu â'r gymuned ac â chyflogwyr
 - o cydweithredu â darparwyr dysgu 14+ eraill
 - o camau i liniaru anfantais gymdeithasol
 - o camau i fwrw ymlaen â'r agenda sgiliau a chyflogaeth.

Rydym yn argymhell y dylai'r Byrddau newydd:

- A 6 Gynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol a Gweithredol ar gymhareb nad yw'n llai na 2 i 1 a Chadeirydd Anweithredol a chanddo/i bleidlais fwrw.
- A 7 Cynnwys chwe Chyfarwyddwr fan leiaf a 12 ar y mwyaf, gyda 9 yn nifer ddelfrydol, i'w penodi gan y Bwrdd, ar ôl Pwyllgor Chwilio, gan weithredu'n unol ag egwyddorion Nolan.
- A 8 Penodi Cyfarwyddwyr ar sail matrices sy'n cwmpasu gwybodaeth a sgiliau mewn meysydd sy'n cynnwys addysg, busnes a menter, cyllid, arweiniad, rheoli, y gyfraith ac adnoddau dynol.
- A 9 Gallu rhoi dystiolaeth fod camau priodol ac ystyrion wedi'u cymryd yn ystod y broses chwilio a phenodi i ganfod Cyfarwyddwyr Anweithredol sy'n adlewyrchu

amrywiaeth y gwahanol gymunedau a wasanaethir ganddynt, gan gynnwys o ran iaith, rhyw, oedran, ethnigrwydd a phroffil cymdeithasol-economaidd (gan seilio hynny ar y meysydd cydraddoldeb a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010)

- A 10 Cynnwys y Pennaeth/Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol
- A 11 Cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn fan leiaf yn ogystal â Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol y byddai pob Cyfarwyddwr yn dod iddo. Gwahoddi y Corff Aelodau, a byddai ar agor i'r cyhoedd.
- A 12 Etifeddu cyfrifoldebau a strwythur pwyllgorau presennol corfforaethau AB fel y'u rhestrir yng Ngorchymyn Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu (Cymru) 2006.
- A 13 Sefydlu trefniadau effeithiol, i sicrhau bod barn ac ystyriaethau rhanddeiliaid, gan gynnwys dysgwyr a staff, yn cael eu bwydo i'r Bwrdd. Gall trefniadau o'r fath gynnwys unigolion o'r Corff Aelodau, ond dylent hefyd gynnwys setiau ehangach o ymgylgoreion.
- A 14 Dylai fod gofyn iddynt gyhoeddi datganiad blynyddol yn sôn am eu cynnydd o ran cyflawni'r dangosyddion perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- A 15 Rhaid i gyfarwyddwyr ddilyn rhaglen hyfforddi genedlaethol a ddatblygir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd â'r sector AB, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd a llywodraethu'n fwy cyffredinol yn effeithiol.
- A 16 Cynnal hunanasesiad blynyddol ar sail adborth llawn gan y Corff Aelodau.
- A 17 Sicrhau bod Swyddog Llywodraethu ar waith sy'n atebol i'r Bwrdd ac yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd a'r Corff Aelodau'n gweithredu'n effeithiol. Byddai swyddogaeth a chyfrifoldebau'r swydd hon yn debyg i'r rheini a gyflawnir gan Glerc y Llywodraethwyr ar hyn o bryd.

Perchnogaeth

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- A 18 Ar y cyd â rhanddeiliaid, ddatblygu canllawiau i gynorthwyo sefydliadau AB i sefydlu Cyrff Aelodau.

Rydym yn argymhell y dylai'r Corff Aelodau newydd:

- A 19 Gael ei sefydlu ar gyfer pob sefydliad AB yng Nghymru.
- A 20 Adlewyrchu amrywiaeth yr holl gymunedau a wasanaethir ganddynt, gan gynnwys yr iaith a ddefnyddir a dylid seilio hyn ar y meysydd cydraddoldeb a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
- A 21 Ymgysylltu â chyfeiriad strategol y sefydliad AB a'i gefnogi.
- A 22 Bod yn fwrdd seinio ynglŷn â dylanwad y sefydliad AB o ran diwallu anghenion y gymunedau y mae'n eu gwasanaethau.
- A 23 Craffu ar y Bwrdd a'i herio ynglŷn â pherfformiad a llwyddiannau'r sefydliad AB i sicrhau bod anghenion y dysgwyr a buddiannau'r gymuned a rhanddeiliaid wrth wraidd y broses penderfynu.

- A 24 Cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn fan leiaf a chymryd rhan mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (a fydd ar agor i'r cyhoedd).
- A 25 Cael eu llywodraethu gan fframwaith a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n seiliedig ar egwyddorion Nolan.
- A 26 Cynnwys 25 o Aelodau fan leiaf a 50 ar y mwyaf.
- A 27 Ethol Cadeirydd i hwyluso cyfarfodydd (gyda chymorth y Swyddog Llywodraethu), a fydd yn mynychu cyfarfodydd y bwrdd fel sylwebydd a chanddo'r hawl i siarad.
- A 28 Bod yn gyfrifol am gadarnhau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a chymeradwyo'u hailbenodi, gan gynnwys Cadeirydd y Bwrdd, pan ddaw cyfnod eu gwasanaeth i ben.

Rydym yn argymhell y dylai Aelodau:

- A 29 Gynnwys unigolion a chanddynt wybodaeth neu arbenigedd yn y meysydd a ganlyn:
- busnes, diwydiant a menter;
 - y sector cyhoeddus fel cyflogwr;
 - materion sy'n ymwneud â sgiliau a'r farchnad lafur;
 - adfywio a datblygu economaidd;
 - y trydydd sector; a
 - darparu addysg ar lefel leol neu ranbarthol (sy'n gallu amrywio o addysg gynradd i addysg uwch).
- A 30 Cynnwys dysgwyr.
- A 31 Cynnwys staff y sefydliad AB
- A 32 Cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi genedlaethol a ddatblygir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- A 33 Cael eu dynodi ar sail cais ysgrifenedig ar ôl proses recriwtio a reolir gan banel annibynnol.
- A 34 Cael cymeradwyo'u penodiad gan y Bwrdd am dair blynedd ac am dri thymor ar y mwyaf.
- A 35 Heb fandad i gynrychioli neu siarad ar ran grwpiau neu unigolion eraill.

Capasiti ac Effeithiolrwydd

Rydym yn argymhell y dylai sefydliadau AB gydweithio er mwyn:

- A 36 Sicrhau bod un grŵp cydweithredol ar waith ym mhob rhanbarth i oruchwylio, arwain ac annog wrth gefnogi trefniadau partneriaeth gyda darparwyr eraill. Mae'n bwysig i ddatblygiadau ar lawr gwlad allu camu ymlaen yn gyflym ac mewn ffordd gydlynol ac felly, dylai'r gynrychiolaeth fod ar y lefel iawn e.e. Pennaeth a Chyfarwyddwr y Bwrdd.
- A 37 Sefydlu Arsyllfeydd Busnes/Cyflogwyr/Diwydiant - ar sail ranbarthol mewn partneriaeth â sefydliadau AB eraill fel sy'n briodol - adeiladu ar sail rhwydweithiau cyflogwyr presennol sefydliadau AB ynghyd ag ar sail cyrff eraill sy'n cynrychioli buddiannau busnesau.

Rydym yn argymhell y dylai Colegau Cymru:

A 38 Ddatblygu egwyddorion a chod llywodraethu gan gydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru, i'w cymeradwyo gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, sy'n ymgorffori Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A 39 Gynorthwyo sefydliadau AB i ddatblygu partneriaethau arloesol a chydfuddiannol gyda chyrff eraill, gan gynnwys clystyrau o sefydliadau AB a chyrff cyhoeddus eraill er mwyn darparu gwasanaethau ar y cyd, heb i hynny olygu bod y sefydliadau AB o dan anfantais ariannol na chyfreithiol. Dylid ystyried defnyddio modelau a threfniadau llywodraethu ar gyfer partneriaethau a chydweithio o'r fath sydd i'w gweld yn y sector Cydweithredol a'r sector Cydfuddiannol.

A 40 Ar y cyd â'r sector AB, datblygu rhaglen hyfforddi Cymru gyfan ar gyfer pawb sy'n ymwneud â llywodraethu sefydliadau AB, boed y rheini'n aelodau o Fyrddau neu'n gyrff Aelodau.

Rydym yn argymhell y dylai Estyn:

A41 Sicrhau ei fod, wrth adolygu sefydliadau AB yn ffurfiol, yn gwerthuso'u trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd, gan ystyried rolau penodol y Bwrdd a'r Corff Aelodau a'r berthynas rhyngddynt, dimensiwn rhanbarthol AB ac asesu pa mor ymatebol ydyw i anghenion y cymunedau a'r sectorau a wasanaethir gan y sefydliad.